Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanwenog
# Llanwenog
# Llanybydder
# Sir Gaerfyrddin
# SA40 9UU

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog ym mhentref Llanwenog, yn sir Ceredigion. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal leol ynghyd â phentrefi cyfagos.

Mae'r ysgol yn rhan o bartneriaeth gyda dwy ysgol gyfagos, sef ysgolion Cwrtnewydd a Llanwnnen. Bydd y dair ysgol yn cau ac yn uno mewn ysgol newydd sy'n cael ei hadeiladu ym mhentref Drefach yn ystod 2016.

Mae 34 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed ar gofrestr yr ysgol ac fe'u derbynnir yn amser llawn ym mis Medi ar ôl iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed. Maent wedi'u trefnu'n ddau ddosbarth oed cymysg.

Tua 3% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r canran sirol a chenedlaethol. Mae 15% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r canran cenedlaethol. Mae gan ychydig iawn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw 59% o'r disgyblion o gartref lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Ebrill 2014. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2009.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2014-2015 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanwenog yw £5,299. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £8,697 a'r isafswm yw £3,038. Mae Ysgol Gynradd Llanwenog yn 11eg allan o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Bron pob disgybl yn dangos diddordeb brwd yn eu tasgau ac maent yn rhoi o'u gorau mewn gwersi
- Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- Bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal a chefnogaeth dda iawn gan yr ysgol
- Mae'r holl ddisgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd
- Ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y pennaeth wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach
- Gweithdrefnau gwella ansawdd a hunanarfarnu yn gadarn gyda ffocws clir ar wella canlyniadau pob disgybl
- Cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau clir a camau gweithredu manwl ar gyfer eu cwblhau
- Diwylliant cryf o gydweithio agos, rhannu dullliau addysgu a dysgu o fewn ysgolion y ffederasiwn

## Argymhellion

A1 Ymestyn uwch fedrau darllen Saesneg y disgyblion

A2 Codi canran y disgyblion sy'n cyrraedd y deilliannau a'r lefelau uwch yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau bod adborth athrawon yn dangos yn glir i ddisgyblion sut i wella eu gwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â safonau tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o'r un oed. O ystyried eu man cychwyn, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae gan bron pob un diddordeb brwd yn y eu tasgau, maent yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn cydweithio'n ddiwyd dros gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda gan holi ac ymateb i gwestiynau yn hyderus. Mae disgyblion o bob oedran yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn rhwydd ac yn ei gymhwyso yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd newydd. Wrth fynd i'r afael â thasgau datrys problemau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau meddwl.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa pan fyddant yn trafod eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae medrau llafar bron pob disgybl o safon dda ac maent yn sgwrsio'n hyderus gydag oedolion. Mae llawer o'r disgyblion yn troi o'u gwirfodd at lyfrau, gyda'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn y Gymraeg, ac ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Gallant drafod cynnwys eu llyfrau yn fanwl gan fynegi barn am eu hoff gymeriadau a digwyddiadau gan arddangos dealltwriaeth dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol i ystod o ddibenion a chyda chywirdeb cynyddol. Mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig ac yn greadigol wrth gofnodi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r gwaith ysgrifenedig yn y llyfr cynllun tair ysgol yn enghraifft dda o hyn.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau a chyfraniadau disgyblion eraill ac yn cyfrannu'n bwrpasol i drafodaethau grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o wahanol strategaethau ar gyfer deall ystyr geiriau ac yn ymdopi'n hyderus â geiriau anghyfarwydd. Mae bron pob un yn mwynhau darllen ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau megis ffuglen a llyfrau gwybodaeth. Erbyn rhan uchaf cyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau, fel llyfrau, pamffledi a gwefannau, ar gyfer cywain gwybodaeth yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gynyddol gywir yn y Saesneg, ond nid yw lleiafrif ohonynt yn defnyddio'r holl uwch fedrau darllen yn hyderus; er enghraifft, nid ydynt yn rhagfynegi ac yn ymateb yn aeddfed i ffuglen. Mae ychydig yn darllen heb fynegiant priodol ac nid ydynt yn ddigon hyderus i drafod cynnwys eu llyfrau darllen yn estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gynhyrchu gwahanol fathau o ddarnau ysgrifenedig megis storïau, llythyron a phortreadau o gymeriadau. Maent yn defnyddio nifer o dechnegau, er enghraifft map meddwl, wrth gynllunio gwaith ysgrifennu ac yn defnyddio'r ystod lawn o atalnodi. Erbyn rhan uchaf cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu diddorol ar draws y cwricwlwm. Mae'r cywaith ar y Stiwartiaid yn esiampl da o waith ymchwil, ysgrifenedig y disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio offer a rhaglenni technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda iawn ac at wahanol ddibenion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Mae llawer o'r disgyblion yn adio ac yn tynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, yn haneru neu'n dyblu rhifau ac yn datrys problemau syml. Mae'r mwyafrif yn cryfhau eu dealltwriaeth o fesur, arian ac amser ac yn datblygu dealltwriaeth o siâp yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn gweithgareddau rhifedd ar draws ystod o bynciau yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth dda o strategaethau i ddatrys problemau rhif sy'n gynyddol heriol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan a degolion, ac yn darllen graddfeydd ar fapiau a graffiau syml. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg mewn pynciau eraill, yn arbennig mewn gwyddoniaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig yn gyson yn y 25% uchaf mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol. Yn ystod yr un cyfnod, roedd perfformiad disgyblion ar y deilliant uwch (deilliant 6), mewn medrau llythrennedd a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Saesneg a mathemateg a rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn Cymraeg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5), wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg.

Nid oes patrwm clir i ddangos a yw cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn well neu'n waeth na'u cyfoedion. Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau personol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw fygythiadau i'w iechyd a'u lles. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corff rheolaidd yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

Wrth i ddisgyblion gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, maent oll yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at ymwelwyr. Mae hyn yn arwain at greu amgylchedd dysgu cadarnhaol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae gan ddisgyblion ymroddiad cryf i'r ysgol a'r staff, ac wrth iddynt aeddfedu maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft drwy ofalu am blant ieuengach ar y buarth. Mae'r cyngor ysgol yn drefnus ac yn glir ei fwriad a rhennir dyletswyddau a chyfrifoldebau rhwng yr aelodau yn bwrpasol. Mae wedi cael effaith ar ddatblygiad yr ysgol gan arwain penderfyniadau ynglŷn â phrynu offer newydd a gwella adnoddau allanol. Mae gan aelodau'r cyngor ddealltwriaeth dda iawn o drefn cynnal pwyllgor ac o'r angen i weithredu mewn modd cynhwysol.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal a'r gymuned leol; er enghraifft, maent yn cydweithio'n agos â chapeli ac eglwysi'r ardal.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae presenoldeb y disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion y disgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn llwyddiannus.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn effeithiol. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau yn y broses o gynllunio themâu. Mae'r athrawon yn cymhwyso'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol yn eu cynlluniau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr i gyfoethogi eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymreig, gan gynnwys croesawu ymwelwyr ac artistiaid i drafod chwedlau Cymreig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ailgylchu ac arbed ynni a'u dealltwriaeth o'r byd ehangach yn llwyddiannus. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o fywyd mewn gwledydd eraill ac i ddatblygu i fod yn aelodau aeddfed a chyfrifol o'r gymuned.

## Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio gwersi yn effeithiol, a'u trefnu'n fedrus gydag amcanion dysgu clir, adnoddau pwrpasol a phwyslais priodol ar y medrau allweddol. Ar y cyfan, mae'r cyflwyniadau in fyrlymus, gyda defnydd buddiol o holi amrywiol a phwrpasol.

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu'n cydweithio'n effeithiol ac mae cyfathrebu llwyddiannus rhwng oedolion a disgyblion. Mae'r arfer o rannu nodau'r gwersi ynghyd â'r meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn arwain at ddisgwyliadau clir a gweithio cynhyrchiol. Mae'r cyfleoedd cyson sydd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith yn ystod sesiynau yn nodwedd gref o'r addysgu. Yn yr ychydig wersi lle mae addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cynnig digon o her i'r disgyblion mwy galluog.

Mae system olrhain cynnydd effeithiol yn weithredol ar draws yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o asesiadau safonol i dargedu ymyrraeth briodol i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth. Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ond nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n gyson ar helpu disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith. Mae'r cyfleoedd rheolaidd a gaiff disgyblion i hunanasesu, i gael eu hasesu gan gyfoedion ac i bennu targedau personol yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at eu cynnydd a'u lles.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni ar gynnydd eu plant o ansawdd da ac yn cynnwys sylwadau cynhwysfawr a phersonol am gyflawniad a chynnydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus iawn gydag ethos gofalgar a chyfeillgar. Mae gofal yr holl staff yn creu awyrgylch teuluol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda; er enghraifft, yn y gwasanaethau mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd addas i fyfyrio.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cynhaliaeth fugeiliol o safon dda i'r disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol, fel nyrs yr ysgol a'r gwasanaethau meddygol. Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn dda drwy arsylwi cyson, cynnal asesiadau ffurfiol a thrwy drafodaethau yn gyson â rhieni. Mae'r athrawon yn tracio cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn cynllunio gwaith addas i ymateb i anghenion y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r disgyblion yn derbyn gofal, cefnogaeth ac arweiniad da mewn ysgol gyfeillgar, gefnogol a hapus. Mae gan yr ysgol bolisïau cydraddoldeb a chyfle cyfartal effeithiol ac mae disgyblion yn cael eu hintegreiddio'n llwyddiannus. Mae'r holl staff yn cydnabod amrywiaeth cefndir disgyblion ac yn eu cefnogi'n dda, beth bynnag eu hanghenion cymdeithasol, ieithyddol neu academaidd.

Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n greadigol i hybu'r dysgu. Mae'r ardal allanol wedi'i datblygu'n effeithiol dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddilyn rhai argymhellion y cyngor ysgol. Er enghraifft, mae ardal natur wedi'i chreu i dyfu planhigion ac i ddenu adar gwyllt yr ardal.

Ceir ystafelloedd dosbarth lliwgar gydag adnoddau cyfoethog ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd graenus o safon uchel ar draws yr ysgol sy'n symbylu'r dysgu. Dangosant enghreifftiau da o waith a llwyddiannau'r disgyblion. Caiff y safle a'r adeilad eu cadw'n lân a graenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mewn amser byr, mae'r pennaeth wedi cynnwys staff, disgyblion a rhieni yn llwyddiannus wrth greu gweledigaeth glir a chytûn ar gyfer yr ysgol. Mae wedi gosod seiliau cadarn i ddatblygu'r ysgol ymhellach. Mae'r pennaeth cynorthwyol hefyd yn cynnig arweiniad clir i'r ysgol. Mae hyn wedi creu ethos cryf a chynhwysol lle gwerthfawrogir pob disgybl yn gyfartal.

Mae cyfarfodydd rheolaidd y staff a'r tîm arweinyddiaeth yn canolbwyntio'n drylwyr ar faterion i wella'r ysgol. Mae strwythur rheoli clir, ac mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi'u diffinio'n dda.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ymateb i ofynion statudol yn glir. Mae'r llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill y teulu, yr awdurdod ac yn genedlaethol. Maent yn ymweld â'r ysgol fel unigolion yn gyson ac mae eu rôl wrth herio'r ysgol fel cyfeillion beirniadol wedi ei datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus ac mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu'n gosod ffocws clir ar ansawdd y ddarpariaeth a deilllianna. Maent wedi'u gwreiddio'n llwyddiannus yn y cynllunio strategol ac yn tynnu ar dystiolaeth uniongyrchol o nifer o ffynonellau sy'n cynnwys gwaith y disgyblion, arsylwi gwersi ac asesiadau diweddar.

Mae'r tîm rheoli, y staff addysgu, llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion yn cyfrannu'n briodol at y broses hunanarfarnu. Mae gan arweinwyr drosolwg effeithiol o gryfderau a diffygion yr ysgol a defnyddiant y wybodaeth i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da. Mae'n rhoi ffocws clir ar safonau cyflawniad y disgyblion, a'r agweddau hynny sydd angen datblygiad pellach. Fodd bynnag, ar adegau, mae'n ddisgrifiadol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant. Mae'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni'r bwriadau yn fanwl, ac mae'r amserlen gweithredu a chyfrifoldebau staff yn glir. Mae'r cynllun hefyd yn gwneud defnydd helaeth o ddangosyddion llwyddiant i fesur cynnydd, gan gynnwys targedau meintiol, heriol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau da gyda rhieni a gofalwyr ac mae bron pob un ohonynt yn gwerthfawrogi polisi drws agored yr ysgol. Mae'r cyfathrebu rheolaidd a'r cylchlythyron yn rhoi darlun da o waith yr ysgol a chyflawniadau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn casglu barn rhieni yn gyson. Yn sgil gweithredu ar y sylwadau hyn, mae'r ysgol yn cynnig adborth buddiol i rieni ar yr hyn a gyflawnwyd. Mae'r rhieni yn hyderus bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau yn dda.

Mae athrawon yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill y ffederasiwn i rannu profiadau o ran datblygu staff a chymorthyddion. Rhennir syniadau a dulliau addysgu amrywiol mewn pynciau fel llythrennedd a rhifedd ac mae hyn wedi cael dylanwad cryf ar godi safonau. Mae gwaith cymedroli effeithiol yn digwydd yn y pynciau craidd, gydag athrawon o'r ysgol yn arwain y gwaith mewn agweddau fel TGCh.

Mae'r cysylltiadau gyda'r cylch meithrin cyfagos yn gweithio'n effeithiol. Mae'r berthynas â'r ysgol uwchradd leol yn gadarn iawn, ac mae'r disgyblion yn elwa'n sylweddol o weithgareddau pontio amrywiol. Mae trefniant effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion gyda'r ysgol uwchradd ac ysgolion y ffederasiwn a'r clwstwr.

Mae gan yr ysgol ystod helaeth o bartneriaethau gyda sefydliadau cymunedol. Caiff y rhain effaith dda ar ehangu profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae ymweliadau â'r eglwys leol yn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion yn dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chymorthyddion profiadol i addysgu'r pynciau. Mae ystod o gyfleoedd hyfforddiant, a threfniadau rheoli perfformiad cadarn, yn sicrhau bod anghenion athrawon a blaenoriaethau'r ysgol yn cael eu cwrdd yn llwyddiannus. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu i'r athrawon yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda tuag at godi safonau trwy'r ysgol, er enghraifft mewn hanes ac addysg grefyddol.

Mae ystod amrywiol o adnoddau dysgu yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer codi safonau rhifedd a llythrennedd grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu broffesiynol sy'n galluogi staff i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i gefnogi'r dysgu. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill yn cael effaith gadarnhaol ar safonau gwaith disgyblion mewn mathemateg.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6673317 - YSGOL GYMORTHEDIG LLANWENOG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 34 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 5 | * | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | * | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | * | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | * | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6673317 - YSGOL GYMORTHEDIG LLANWENOG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 34 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 5 | 6 | 6 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 100.0 | 83.3 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | 6 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 83.3 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 80.0 | 16.7 | 33.3 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | 6 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 100.0 | 83.3 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 16.7 | 33.3 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | 6 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 83.3 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 80.0 | 16.7 | 33.3 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | 6 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 83.3 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 80.0 | 50.0 | 50.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 14 | 14<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 14 | 14<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 14 | 14<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 14 | 14<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 14 | 12<br>86%<br>96% | 2<br>14%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 14 | 14<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 14 | 14<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 14 | 14<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 14 | 14<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 14 | 13<br>93%<br>95% | 1<br>7%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 14 | 14<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 14 | 14<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 17 | 11 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 17 | 8 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 47% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 17 | 9 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 53% | 41% | 6% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 17 | 10 | 5 | 1 | 1 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 59% | 29% | 6% | 6% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 17 | 10 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 59% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 17 | 7 | 8 | 2 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 41% | 47% | 12% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 17 | 12 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 71% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 17 | 9 | 5 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 53% | 29% | 12% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 15 | 4 | 7 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 27% | 47% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 17 | 10 | 5 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 59% | 29% | 12% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 17 | 11<br>65% | 5<br>29% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 17 | 6<br>35% | 5<br>29% | 1<br>6% | 0<br>0% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 17 | 9<br>53% | 7<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 6<br>43% | 5<br>36% | 1<br>7% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 17 | 9<br>53% | 6<br>35% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 17 | 11<br>65% | 5<br>29% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Deris Williams | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Carol Davies | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.